

Cyngor Cymuned Llanelian (268)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Medi 1, 2015 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths Glenys Jones Hefina Williams	T Elfyn Hughes Helen Hughes David Gerrard	Thomas D Jones Gordon Hayes	John Griffiths Carol Whitaker
------------	---	---	--------------------------------	----------------------------------

Ymddiheuriadau: Neb

1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod

2 Datgan Diddordeb

Nid oedd unrhyw aelod am ddatgan diddordeb.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig T Jones, eilio H Hughes.

4 Materion yn Codi

4.1 Sedd Wag – Un unigolyn sydd wedi cysylltu a'r clerc i ddatgan diddordeb mewn ymuno a'r Cyngor. Cytuno gwahodd Mr Wes Parry i ymuno a'r Cyngor a dod i'r cyfarfod nesaf. CET

4.2 Cyflwr lonydd – cafwyd ebost gan yr adran briffyrdd yn datgan nad oedd arian ar gael i drin y lon a bod y giang cymunedol wedi llenwi y tyllau gwaethaf ar brif ffyrdd yr ardal. Mae'r lon yn cael ei ddefnyddio'n reolaidd gan gerddwyr a phobl yn beicio yn ogystal a cheir. Nodwyd bod y Cyngor Cymuned wedi tynnu sylw'r adran briffyrdd at gyflwr y lon ac mae eu cyfrifoldeb nhw ydi ei drin.

5 Cynllunio

5.1 Ceisiadau –
Nid oedd ceisiadau i'w trafod

5.2 Penderfyniadau -
Nid oedd penderfyniadau i'w cofnodi.

5.3 Materion cynllunio eraill –

5.3.1 Datblygiad Corn Cam – cafwyd ebost gan y Cyngor Sir er gwybodaeth yn gofyn i'r datblygwyr gysylltu a'r Cyngor Cymuned er mwyn trafod a phenderfynnu ar enw. Nid ydynt wedi bod mewn cysylltiad hyd yma. Nid oedd yr aelodau yn gweld unrhyw broblem gyda defnyddio 'Maes Lletroed' gan mai dyna enw'r rhan yno o'r pentref. Byddai gan y datblygiad god post gwahanol i'r datblygiadau eraill a soniwyd amdanynt beth bynnag felly ni ddylai fod yn broblem i'r post. Cytuno cysylltu yn unionsyth gyda 4 Crosses Construction. CET

5.3.2 Carffosiaeth – mae map wedi ei dderbyn gan Dwr Cymru yn dangos y system garffosiaeth yn y pentref. Mae'n debyg bod holl garffosiaeth y pentref yn llifo drwy'r cae chwarae. Mae'r broblem gyda'r arogl yn parhau. Fe ofynnwyd os oedd patrwm i'r arogl, Fe nodwyd y byddai'r peipiau dan bwysau enfawr pan oedd yr orsaf bwmpio yn gweithredu ac y byddai unrhyw fannau gwan / yn gollwng yn dod i'r amlwg. CET

Cytuno ysgrifennu at Dwr Cymru eto i godi pryderon bod y broblem yn parhau a gofyn am 'man hole' newydd gyda sel gwell, Cytuno hefyd cysylltu a'r tri cynghorydd sirol a gofyn iddynt roi pwysau ar Dwr Cymru ac o bosib y Cyngor Sir i rywbeth gael ei wneud i ddatrys y broblem.

Y Clerc i anfon copi o'r map drwy ebost i'r holl aelodau er gwybodaeth.

5.3.3 Gwrthwynebu ceisiadau cynllunio - mae wedi dod i sylw'r Clerc a'r Cadeirydd bod ceisiadau cynllunio dim ond yn cael eu galw o flaen y pwyllgor petai tri gwrthwynebiad yng Ngwynedd. Byddai gwrthwynebiad Cyngor Cymuned yn cyfrif fel un. Teimlai cynghorau cymuned Gwynedd bod hyn yn anheg ac y dylai gwrthwynebiad gan gorff statudol olygu bod y cais yn cael ei drafod gan bwyllgor ac nid gan swyddog unigol. Byddai hyn yn esbonio pan bod nifer o geisiadau sydd CET

yn cael eu gwrthwynebu gan y cyngor cymuned yn cael eu cymeradwyo, a pham nad y'w adran gynllunio i'w weld yn cymryd cwynion o ddifrif.

Cytuno ysgrifennu at Wil Hughes fel Cadeirydd y pwyllgor cynllunio i gael cadarnhad o broses Cyngor Mon.

6 Materion Ariannol

- 6.1 Archwiliad – mae'r archwiliad mawr wedi ei gwblhau gan UHY Hacker Young heb unrhyw gais am wybodaeth ychwanegol. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith i'w gwblhau.
- 6.2 Adroddiad cyllid – dosbarthwyd gopi o adroddiad yn datgan gwariant ac incwm y Cyngor dros gyfnod Ebrill-Gorffennaf 2015. Diolchwyd i'r Clerc am ei baratoi, a gofynnwyd am adroddiad yng ngyfarfod mis Hydref am wariant y Cyngor yn y chwe mis Cyntaf o'r flwyddyn (Ebrill – Medi). Bydd adroddiad i'w gyflwyno ar ddiwedd pob chwarter.
- 6.3 Taliadau –
Cymeradwywyd y taliadau canlynol -
£211.20 Rospa Play Safety (arolygon caeau chwarae)
£7555.20 Playquest (offer cae chwarae)
£246.00 UHY Hacker Young

7 Caeau Chwarae

Yn dilyn derbyn yr arolygon blynyddol, mae'r is-bwyllgor wedi cyfarfod i drafod y darganfyddiadau a blaenoriaethu yr hyn sydd angen ei wneud. Dosbarthwyd gopi o nodiadau'r cyfarfod hwnw er gwybodaeth. CET

- Mae argymhelliad i gael dau giat i'r cae chwarae bach. Mae perchennog Ynys Bach yn fodlon i'r Cyngor dorri dau o'r coed conifer a defnyddio'r giat bach ar y ffin petai'r Cyngor yn penderfynnu gwneud hynnu.
- Cafwyd pris o £275 gan Richard Edwards i dorri't tyfiant yn ol tuag at y ffordd osgoi. Cytuno ei dderbyn. Y Clerc i gysylltu a chadarnhau.
- Offer coed – cafwyd pris o £1932 am adnewyddu'r offer. Penderfynnu trafod eto ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a chyllido'r gwaith i wariant y flwyddyn nesaf cyn yr arolwg nesaf. Cadarnhau gyda Playquest bydd angen gwneud y gwaith yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Nid oes diweddariad ar drosglwyddiad Maes Llwyfo.

8 Llithrfa

Dydy'r system ddim yn gweithio eleni. Dim ond hanner y goriadau sydd wedi eu dosbarthu ac mae'r defnydd o'r llithrfa yn fwy nac erioed. Cytuno ysgrifennu at y tri cynghorydd sirol i ddatgan pryder. Dydy ddim yn deg ar yr aelodau a'r Clerc yn cael cwynion am ddiffygion y gwasanaeth morwrol. Dim ond dosbarthu'r goriadau mae'r Cyngor Cymuned yn ei wneud. CET

Cytuno bod angen cyfarfod Partneriaeth Llithrfa cyn gynted a phosib ar ddiwedd y tymor yn ogystal ag ar ddechrau'r tymor nesaf. Cytuno bod hefyd angen cyfarfod gyda swyddogion y Cyngor Sir, Pennaeth yr adran a'r Cynghorwyr Sirol.

9 Gohebiaeth

- 9.1 Eglwys Llaneilian – daw ebost yn gofyn am ganiatad gosod sgaffald er mwyn cwblhau'r gwaith atgyweirio yn dilyn lladrad mis Mai. Pawb yn cytuno bod angen gwneud y gwaith. CET
- 9.2 Un Llais Cymru – gwybodaeth am y cyfarfod blynyddol.
- 9.3 Horizon – cadarnhad mai Mr Wyn Thomas sydd wedi ei benodi yn is-gadeirydd Grwp Prosiect Wylfa Newydd
- 9.4 Horizon - gwybodaeth am gymorthfeydd agored yn y gymuned leol

9.5 Partneriaeth Gwynedd a Mon – gwybodaeth am arwyddion ardaloedd di fwg

9.6 Un Llais Mon – cais am gefnogaeth i ymgyrch gwrthwynebu peilonau

10 Unrhyw Fater Arall

10.1 Post – Deallwyd bod gwithiwr y post wedi gorffen a'i gwaith er mwyn edrych ar ol aelod o'r teulu, a bod y perchenog yn ol am gyfnod. Mae cwynion yn y pentref nad y'w swyddfa ar agor yn reolaidd ac wedi cau yn ddirybydd. Pawb yn cytuno ei bod yn bwysig cadw gwasanaeth y post yn y pentref, ym mha bynnag adeilad. Cytuno cysylltu a'r Post Brenhinol i weld pam fod y post wedi cau, a thrafod ymhellach gyda Cynghorwyr Sirol os oes angen cymryd camau pellach. CET

10.2 Mynwent – nodwyd bod gwaith cynnal a chadw Mynwent Llaneilian yn cael clod. Braff oedd peidio cael cwynion.

10.3 Cwn – mae cwynion yn parhau. John Griffiths i barhau a thrafodaethau a Chyng Aled Morris Jones.

10.4 Camerâu ar yr A5025 – deallwyd mai monitro rhannau o'r lon oedd eu pwrpas a'u bod wedi eu lleoli ger brif gyffyrdd. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a'r Cyngor Sir o ofyn beth oedd yn cael ei fonitro a pam. CET

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 13/10/2015

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.30 o'r gloch.